FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

COFNODION WEDI'U CADARNHAU

o'r trydydd cyfarfod ar hugain a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Wrecsam ar 10 Rhagfyr 2006

46/06 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Yn bresennol:

CADEIRYDD	YSGRIFENNYDD GWEITHREDOL
Clive Menzies	Katie Birks
AELODAU	**MYNYCHWYR NAD YDYNT YN AELODAU**
Mike Crawshaw	Martin Howorth
	Mark Pritchard
Sue Gittins	Alun Price (CCGC)
John Marchant	Emma Haldane
Mavis McBride	Janet Williams
Mabyn Pickering	
Gerald Moss	
Karl Prakel	
Shelagh Roberts	
Edward Wardle	

Ymddiheuriadau: Ieuan Lewis, John Cooper-Poole, Margaret Murphy, Tim Rosselli a Tim Stevens.

60/06 Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 8 Medi 2006.

36/06 Egluro yswiriant

Mynegodd y Cadeirydd Gweithredol, Clive Menzies, bryder bod pobl sy'n ymddangos yn barod iawn i wneud gwaith gwirfoddol ond nad ydynt yn derbyn llawer iawn o gymorth. Dywedodd Sue Gittins bod gan Bowys eu Swyddog Hyfforddi eu hunain. Dywedodd Martin Howorth bod gan wirfoddolwyr mewn parciau gwledig sicrwydd yswiriant gan eu bod yn cael eu goruchwylio. Awgrymodd y Cadeirydd Gweithredol bod ansicrwydd o ran gwirfoddolwyr cymunedol.

GWEITHREDU: Yr Ysgrifennydd i gael cyngor am arfer gorau gan Bowys.

38/06 Materion cyllidebol

Croesawodd y fforwm y Cynghorydd Mark Pritchard o CBSW i ateb cwestiynau.
Honnai Sue Gittins bod y fforwm yn gorff statudol; fodd bynnag nid yw'n cael rhoi unrhyw fewnbwn i'r broses gyllidebu ac nid oes ganddo gyllideb ei hun chwaith. Nododd Clive Menzies hefyd nad oedd y Cyngor yn llwyddo i symud DMMO's ymlaen, a theimlwyd bod hyn yn annerbyniol.
Dywedodd y Cynghorydd Pritchard bod yr adnoddau sydd ar gael yn gyffredinol gan y Cyngor yn gyfyngedig iawn, ond byddai'n mynegi pryderon y fforwm wrth y Prif Weithredwr.
Diolchodd y fforwm i'r Cynghorydd Pritchard ac roeddent yn gwerthfawrogi ei bresenoldeb.
GWEITHREDU: Y Cynghorydd Pritchard i fynd â barn y fforwm yn ôl i'r Prif Weithredwr.

39/06 Hyfforddiant i aelodau

Rhannodd John Marchant ddogfen yn cynnwys cwestiynau a ofynnir yn aml am HTC. Trafodir hon yn y cyfarfod nesaf.
GWEITHREDU: Dylai aelodau'r fforwm ddarllen y ddogfen a pharatoi cwestiynau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

40/06 Ymglymiad ieuenctid.
Cysylltwyd â Juliet John, Hwylusydd Fforwm Ieuenctid Wrecsam ac roedd ganddi ddiddordeb mawr mewn dysgu mwy am y FfMLl a chael y ddau fforwm i gyfathrebu. Awgrymodd Juliet y dylid cynnal cyfarfod o flaen llaw gyda chynrychiolydd o'r FfMLl. Gofynnodd Clive Menzies am wirfoddolwyr i helpu â'r mater hwn a chytunodd i gynrychioli'r FfMLl ei hun gan nad oedd unrhyw arall yn cynnig gwneud.
GWEITHREDU: Clive a'r Ysgrifennydd i archwilio'r mater hwn.

53/06 Parcio mewn cilfannau / Ymgynghoriad am y Cynllun Datblygiad Gwledig (Sue Gittins)

Yn ôl Sue Gittins, roedd Wrecsam yn gwneud cais am gyllid ychwanegol, yn arbennig ar gyfer ardal Dyffryn Ceiriog, ac mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru £76.8 miliwn yn ogystal â £32 miliwn arall i'w rannu rhwng 16 awdurdod lleol. Roedd y cynlluniau'n symud yn gyflym iawn. Roedd Sue wedi diogelu lle i'r fforwm ar Fwrdd Partneriaeth Gogledd Gororau Cymru i drafod a phwysleisio diddordebau'r FfMLl hefyd.
Bydd ceisiadau am arian yn mynd i mewn yn ystod Rhagfyr 2006, yna gellir trafod / symud prosiectau posibl ymlaen.
Gofynnodd Sue i aelodau roi gwybod iddi os oedd ganddynt syniadau ar gyfer hyrwyddo mynediad agored a hamdden yng nghefn gwlad.

Tynnodd Sue sylw at ddigwyddiad 'gweledigaeth' a gynhelir yn Nyffryn Ceiriog ar 11eg Tachwedd. Dywedodd Karl Prakel y byddai ef yn bresennol a gofynnodd y fforwm am ddiweddariad ar ôl y digwyddiad.
Nododd Mike Crawshaw bod y ffordd yn y llythyr i'r Prif Beiriannydd yn anghywir. Y ffordd dan sylw oedd yr un o Lanarmon i Swch-cae-rhiw a ddefnyddir fel mynediad i fynyddoedd y Berwyn o'r pwynt hwnnw.

GWEITHREDU: Karl Prakel i adrodd yn ôl am y digwyddiad 'gweledigaeth' yn y cyfarfod nesaf, a byddai'r Ysgrifennydd yn egluro'r ffordd dan sylw i'r Prif Beiriannydd.

54/06 Cŵn yng nghefn gwlad

Rhannwyd adroddiad yr NFU ar "Cŵn yng Nghefn Gwlad Cymru" ymysg aelodau'r fforwm.
Nododd Clive Menzies bod y mater yn un pwysig iawn a'i fod yn haeddu trafodaeth. Gofynnodd i'r aelodau am eu barn am y cyfarwyddyd ac am unrhyw awgrymiadau ac ymholiadau.
Dywedodd Mike Crawshaw bod hwn yn amser pwysig o'r flwyddyn i ffermwyr a theimlai y dylai cŵn gael eu cadw ar dennyn bob amser gan fod achosion o aflonyddu defaid yn gyffredin.
Taerodd Sue Gittins ei bod yn teimlo y dylid addysgu perchnogion cŵn a meddyliodd tybed a oedd unrhyw ymchwil wedi'i wneud i awgrymu bod unrhyw gynnydd mewn problemau ers Deddf HTCG.
Dadleuodd Gerald Moss y gallai'r problemau hyn barhau oni bai bod arwyddion a rhyw fath o rym statudol yn cael eu gosod.
Cytunodd Clive Menzies a Shelagh Roberts bod gan y FfMLl lawer o bryderon am gŵn yng nghefn gwlad, ond roedd llawer o gefnogaeth yn cael ei rhoi i'r ddogfen.
GWEITHREDU: Clive Menzies i fynegi'r pryderon hyn wrth y FfMC.

56/06

- Gweithdai "Cynlluniau Strategol ar gyfer Chwaraeon a Hamdden Dŵr" gan Asiantaeth Amgylchedd Cymru.

  Oherwydd bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn gwthio'r dyddiad yn ôl i ymgysylltu â'r ymgynghorwyr i gynnal y gweithdai hyn, nid oes dyddiadau wedi'u nodi ar eu cyfer hyd yma.

  GWEITHREDU: Ysgrifennydd i ofyn am ddyddiadau a gwybodaeth bellach.

- Eglurhad o gostau (John Marchant)

Adroddodd John nad oes angen i aelodau'r FfMLl ddangos derbynebau i hawlio costau milltiredd.

61/06 Adroddiad y Cadeirydd

Adroddodd Clive Menzies yn ôl am gyfarfod Cadeiryddion y FfMLl y bu'n bresennol ynddo ar ran Ieuan Lewis.
Nododd Clive bod Paul Bucknell (o ddwyrain Conwy) wedi rhoi cyflwyniad am y problemau sy'n wynebu gweithrediad y CGHT. Roedd Cadeirydd y FfMC yn gwbl gefnogol o rai o'r pwyntiau a wnaeth Paul, ond ar lefel FfMLl, byddwn yn dechrau gweld bod gan y Fforymau Mynediad Lleol rôl fawr ac allweddol i'w chwarae yn ystod y cyfnod hwn.

Trafodwyd cyllid hefyd (a chadw arian y gofynnodd FfMLl Wrecsam amdano). Fodd bynnag, mae cadw cyllid yn annhebyg o gael ei wneud yn orfodol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) gan fod y mwyafrif o gynghorau wedi mynd y tu hwnt i'w cyllidebau yn ystod gweithrediad 'mynediad agored', felly mae LlCC yn teimlo nad oes rheswm i gadw cyllid.
Fodd bynnag, nid oes unrhyw beth yn atal awdurdodau lleol rhag ei gadw'n wirfoddol - rhywbeth y dylai'r FfMLl wneud cais amdano.

Aethpwyd i'r afael â chynyddu proffil a gwaith partneriaeth y FfMLl hefyd, a bydd Clive yn rhoi strategaeth at ei gilydd ar gyfer hyn a fydd yn nodi sut y gallai'r FfMLl ymestyn ei ddylanwad.
Nododd Clive y byddai'n dod â'r strategaeth hon i gyfarfod nesaf FfMLl Wrecsam i'w drafod cyn iddo fynd at gynulleidfa ehangach.
Teimlai'r cadeiryddion bod angen mynd i lefel Cynghorau Tref a Chymuned.
Gofynnodd Clive i unrhyw un a oedd yn gysylltiedig ar y lefelau hyn siarad ag eraill am y FfMLl a'i faterion cysylltiedig.

GWEITHREDU: Clive Menzies i ddod â'r strategaeth i gyfarfod mis Ionawr i'w drafod.

Teitl y cyflwyniad olaf oedd "Goblygiadau i Dir Mynediad o Geisiadau Ffermydd Gwynt". Er bod hyn wedi troi'n ddadl llawer ehangach, mae'n fater y bydd angen i FfMLl Wrecsam ei ystyried yn y dyfodol.
Ar ddiwedd y trafodaethau hyn, awgrymwyd y dylid edrych yn ehangach ar gylch gorchwyl y FfMLl, a bod y FfMLl yn edrych ar unrhyw gais a fyddai'n effeithio ar HTC a "dylid ymgynghori â FfMLl ynglŷn â phob cais cynllunio lle byddai gweithredu'r cynllun yn ardaro ar brofiad defnyddwyr yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus, tir mynediad a chyfleoedd mynediad eraill. Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw gynllun a fyddai'n effeithio ar brofiadau gweledol neu glywedol y defnyddwyr".

Awgrymodd Clive bod y datganiad yn eithaf eang ac roedd Cadeiryddion FfMLl eraill yn mynd yn ôl i weithredu hyn. Awgrymodd Clive y byddai angen i Ieuan Lewis gytuno ar gamau gweithredu pellach.

Fodd bynnag, awgrymodd Clive efallai y gallai ef a gwirfoddolwr arall ddechrau monitro'r mathau hyn o geisiadau yn anffurfiol er mwyn cael syniad o'r gwaith a fyddai ynghlwm wrth hyn. Gwirfoddolodd Sue Gittins i helpu Clive gyda'r mater hwn.
GWEITHREDU: Clive a Sue i ddechrau monitro'r ceisiadau'n anffurfiol.

Penodwyd Clive fel cynrychiolydd y FfMLl hefyd.

Roedd sesiwn olaf y cyfarfod yn canolbwyntio ar sut oedd Cadeiryddion y FfMLl yn teimlo oedd y FfMLl yn perfformio. Yn gyffredinol, teimlwyd bod FfMLlau awdurdodau lleol llai yn fwy effeithiol gan eu bod yn cael rhywun i wrando arnynt yn amlach.
Nododd Clive bod FfMLl Wrecsam wedi gwneud sawl argymhelliad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ond teimlai'n bersonol nad oedd yr ymateb wedi bod yn gadarnhaol.
Honnai Clive y teimlai'r cyfarfod y dylid ymgynghori â'r FfMLl am faterion ehangach, ymgysylltu â'r cyhoedd yn fwy a rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i gynyddu eu proffil.
Roedd cael atborth gan y Cyngor hefyd yn fater allweddol i fynd i'r afael ag o.

Edrychodd y sesiwn olaf hefyd ar feysydd eraill y gallai'r FfMLl edrych arnynt gan gynnwys: materion cynllunio, mynediad i'r anabl, gofalu am gefn gwlad a gweithio ar y cyd i agor llwybrau ar draws ffiniau.

Holodd Sue p'un a oedd CBSW yn cynnal diwrnodau agored y gallai'r FfMLl fod yn gysylltiedig â nhw. Nododd John Marchant fod amryw o adrannau wedi cynnal diwrnodau agored am wahanol themâu ac mae Neuadd y Dref wedi cynnal diwrnod agored hefyd.

Nododd Sue bod llyfryn yn dod o amgylch yn sôn am yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud, ac awgrymodd Clive efallai y gallai'r FfMLl gael ei gynnwys ynddo.

Awgrymodd Clive hefyd y dylid bod yn rhan o'r "Wythnos Gerdded", ac y dylai aelodau fynd ar deithiau cerdded a sgwrsio'n anffurfiol â'r cyhoedd.

Awgrymodd Sue Gittins hefyd y dylid cael arddangosfa / poster o ryw fath yn y Parciau Gwledig a mannau cyhoeddus. Cytunodd John Marchant i ddylunio poster y gallai aelodau eu dosbarthu yn eu cymunedau.

GWEITHREDU: Yr ysgrifennydd i ddarganfod pwy sy'n trefnu llyfryn "Cyswllt" y Cyngor. Dylai John Marchant ddod â rhaglen ddigwyddiadau i'r cyfarfod nesaf a llunio poster i roi cyhoeddusrwydd i'r FfMLl i'w ddosbarthu trwy'r aelodau.

62/06 Adroddiad yr Ysgrifennydd

Cyfeiriodd Katie sylw'r aelodau at "Newyddlen Mynediad Cefn Gwlad" Llywodraeth Cynulliad Cymru ac agenda'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol ar y bwrdd ochr.

Nododd yr Ysgrifennydd hefyd bod rhywfaint o drafodaethau wedi bod ar ôl y cyfarfod diwethaf am rai o'r pwyntiau ar y cofnodion a oedd heb eu cadarnhau.
Ni ellir ychwanegu sylwadau / barn ychwanegol at y cofnodion os na ddigwyddodd yn ystod y fforwm.

Gan fod y fforwm yn cwmpasu rhai materion emosiynol, argymhellodd yr Ysgrifennydd y dylai aelodau sy'n teimlo'n gryf am rywbeth ddweud eu barn bersonol yn agored. Fodd bynnag, pan mae aelodau'n teimlo ei bod yn hanfodol i'r fforwm gael 'llinell swyddogol' gallant ofyn i'r fforwm alw pleidlais.

63/06 Coed Llandegla (Janet Williams)

Roedd Janet Williams yn bresennol i dynnu sylw at ddatblygiadau yn ardal Coed Llandegla (sydd ar y ffin â Wrecsam), ac sy'n darparu ystod eang o weithgareddau awyr agored ar hyn o bryd, gan gynnwys llwybrau beicio mynydd, llwybrau ceffyl i farchogwyr a gyrru cart a cheffyl hefyd.

Tynnodd Janet sylw at y cyfleusterau diogel yng Nghoed Llandegla (nid oes llawer o drawsgroesi na gwrthdaro â defnyddwyr eraill) a nododd na ellid cael mynediad heb fynd trwy ardal y Ganolfan Ymwelwyr sy'n helpu i reoli'r gweithgareddau.

Hefyd, unwaith i unigolyn ddod yn aelod o'r gymdeithas gyrru cart a cheffyl, caiff amseroedd cyrraedd ac ati eu darwahanu i leihau pwysau ar y safle.

Mae'r prosiect hefyd am gael cysylltiad â meysydd eraill er mwyn cael llwybrau diogel heb draffig.

Diolchodd Clive Menzies i Janet am ei mewnbwn a'i chyflwyniad a dywedodd y byddai FfMLl Wrecsam yn fwy na bodlon helpu os bydd angen cefnogaeth neu gyngor ar y prosiect yn y dyfodol.

64/06 Arolwg Ordnans Cymru (Aaron Sollis)

Nododd Clive bod Aaron wedi methu â bod yn bresennol ond dymunai ddod i gyfarfod arall yn y dyfodol i drafod gwaith AO Cymru.

65/06 Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (Martin Howorth)

Dywedodd Martin Howorth bod cyfnod asesu'r CGHT wedi dod i ben bellach a bod y Pwyllgor Archwilio wedi gweld yr asesiad (cyn iddo fynd at y Bwrdd Gweithredol sy'n rhoi penderfyniad terfynol).
Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r asesiad ond roedd ganddo bryderon difrifol am leihau'r gyllideb a'r modd y byddai hyn yn effeithio ar y CGHT.

Bellach mae cyfnod y Cynllun Gweithredu wedi dechrau, sy'n mynd i'r afael yn ymarferol â'r modd y bydd y cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith. Mae'r cyfnod hwn wedi cynnwys edrych ar arfer gorau mewn mannau eraill a gweld sut mae CBSW yn perfformio o'i gymharu ag awdurdodau eraill.

Fodd bynnag, ar ddiwedd y broses asesu, roedd rhai o'r amcanion yn eithaf annelwig. Esboniodd Martin sut y cymerwyd y blaenoriaethau o ymgynghoriad y cyfnod asesu a sut y cysylltwyd camau gweithredu penodol â nhw yn y gweithdai gyda staff a'r FfMLl.

Ategir at y Cynllun Gweithredu 10 Mlynedd gan Gynlluniau Gweithredu blynyddol sy'n nodi beth y dylid ei gyflawni bob blwyddyn gan wneud y broses yn fesuradwy.
Soniodd Martin am y modd y mae wedi gofyn i ddefnyddwyr eraill hawliau tramwy am argymhellion penodol eraill, a'i fod wedi gofyn i gynghorau cymuned am fewnbwn, yn arbennig ynghylch gwelliannau ariannu.

Ysgrifennir y Cynllun Gweithredu drafft erbyn diwedd Mawrth 2007.

Gofynnodd Martin i'r fforwm sut yr hoffent roi sylwadau am y Cynllun Gweithredu drafft a chytunwyd y byddai angen cynnal cyfarfod ar wahân i drafod y mater cymhleth ac amrywiol hwn.

GWEITHREDU: Bydd y fforwm yn cytuno ar ddyddiad (tuag at bythefnos olaf Mawrth) i gyfarfod a thrafod y Cynllun Gweithredu drafft yn y cyfarfod nesaf a bydd Martin Howorth yn dal i weithio ar y fersiwn drafft.

66/06 Mapiau rhyngweithiol

Cyfeiriodd Clive at y wybodaeth mapio rhyngweithiol a anfonwyd at aelodau ar wefannau Mapio Swydd Amwythig (Shrop Map) a Mapio Cynlluniau Sir y Fflint.
Cyfeiriwyd aelodau at y rhain er mwyn gweld beth y gellir ei gyflawni trwy fapio rhyngweithiol ac awgrymodd Clive oblygiadau pellach mapio rhyngweithiol ar gyfer Mapiau Swyddogol a Cheisiadau Cynllunio ac ar gyfer gwneud mynediad yn llawer rhwyddach yn gyffredinol.

Honnai Gerald Moss hefyd bod gan Gymdeithas y Cerddwyr fapiau rhyngweithiol a'u bod yn adnodd da.

Cytunodd y fforwm anfon llythyr at Brif Weithredwr Cyngor Wrecsam i argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu mapio rhyngweithiol i helpu i wella'r gwasanaeth cyhoeddus.

GWEITHREDU: Ysgrifennydd i ysgrifennu at y Prif Weithredwr gyda'r argymhelliad hwn.

67/06 Adroddiad gan Geidwaid Mynediad

Mae Sion wedi bod yn ymdrin â chwynion cyffredinol yn bennaf ac mae'n parhau i weithio ar y rhestr arwyddion bresennol. Mae wedi bod mewn cysylltiad â Denbighshire Signs i gynhyrchu dull newydd o roi cyrchfannau a rhifau llwybrau cerdded ar faneri ac mae'n gobeithio rhoi'r rhestr allan i dendro yn fuan.
Mae Sion wedi arwain taith gerdded dywysedig o Felin y Nant i Fronwylfa yng nghwmni Alison. Roedd chwe aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

Mae Dave wed bod yn gweithio ar lunio'r mapiau ar gyfer chwe thaith gerdded gylchol - tair taith gerdded wledig o amgylch Wrecsam a thair o amgylch ardal Owrtyn. Bydd modd lawrlwytho'r rhain neu byddant ar gael ar bapur ar gais gan yr is-adran hawliau tramwy.

Dywed Alison bod prosiect llwybr cerdded Brymbo yn symud ymlaen ac mae amserlen waith yn cael ei chreu ar gyfer arwyddion. Mae Alison a Sion yn gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu rhanfapiau ar gyfer Arolygon Dangos Perfformiad Gwerth Gorau sydd i'w cynnal yn ystod mis Tachwedd.

Mae cwynion am gnydau wedi gostwng ychydig, fodd bynnag mae ambell i gŵyn wedi bod am gnydau siwgr betys a maip.

Holodd Clive am sefyllfa bresennol yr arwyddion cŵn. Nododd John Marchant y byddai'n cysylltu â Sir Ddinbych a Sir y Fflint am eu cyflenwyr arwyddion a chael manylion costau i'r fforwm.

Mynegodd Clive werthfawrogiad y Fforwm i'r Ceidwaid Mynediad am eu gwaith caled.

GWEITHREDU: John Marchant i ymchwilio i sefyllfa'r arwyddion cŵn yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint a chael manylion gwir gostau ar gyfer cyfarfod nesaf y fforwm.

68/06 Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Nododd Alun Price y gall tirfeddianwyr roi rhybudd o gau tir dan Ddeddf 2000, ac fel y cyfryw bydd Ystad Llanarmon ar gau am ddeuddeg diwrnod yn ystod Tachwedd a chwech arall yn 2007 ar gyfer saethu adar hela. Arddangosir y cyfnodau cau ar wefan CCGC.

69/06 Unrhyw faterion eraill

Anfonwyd Papur Ymgynghori CCGC/Natural England at yr aelodau eisoes. Gofynnodd Clive Menzies am gasglu sylwadau a barn i llunio ymateb cyfansawdd gan y FfMLl.

GWEITHREDU: Gofynnwyd i aelodau ddarllen y papur ymgynghori ac ymateb gyda sylwadau i'r Ysgrifennydd erbyn 5ed IONAWR 2007 fan bellaf.
Nododd Mike Crawshaw hefyd nad oedd Undeb Ffermwyr Cymru (Swyddfa Rhuthun) wedi derbyn copi. Cadarnhaodd Alun Price y byddai'n anfon un atynt.

Soniodd Gerald Moss am y mater o arolygon gwirfoddolwyr ar rwydwaith HTC.
Roedd Gerald wedi bod yn gwneud gwaith arolygu yn ei ardal leol. Cefnogodd John Marchant y fenter hon ac awgrymodd y gallai Hawliau Tramwy gynhyrchu taflenni arolygu ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn cwblhau rhai yn eu hardaloedd lleol yn wirfoddol.

GWEITHREDU: Dylai rhai sydd â diddordeb sôn wrth John Marchant am arolygu'n wirfoddol yn eu rhwydwaith lleol.

Roedd y fforwm wedi derbyn llythyr am hen Ffordd Pen y Fron yn Wrecsam. Roedd yr ohebiaeth yn gysylltiedig ag achos lle'r oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ymddangos i fod yn berchen ar yr ardal lle'r oedd y llwybr ac ar ôl hynny wedi'i werthu, er bod pobl wedi bod yn cerdded dros yr ardal am dros 20 mlynedd.

GWEITHREDU: Cytunodd y fforwm nad mater i'r FfMLl oedd hwn ond rhoddwyd awdurdod i Clive Menzies ysgrifennu at yr unigolyn dan sylw i roi pwyntiau cyfeiriol i'w gynorthwyo â'i ymdrechion.

70/06 Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf

Awgrymodd Clive y dylid rhoi eitemau ar gyfer yr agenda nesaf i'r ysgrifennydd, a bodd angen i'r FfMLl archwilio lle a phryd y mae'n cyfarfod yn y dyfodol i'w wneud yn fwy cynhwysol o bosibl.

71/06 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf.
Neuadd y Dref, Ystafell Bwyllgor 3, dydd Gwener 26ain Ionawr 2007 am 1.30pm.

Ysgrifennydd y Fforwm Katie Birks, D/O Parc Gwledig Tŷ Mawr, Lôn Cae Gwilym, Cefn Mawr, Wrecsam, LL14 3PE. Ffôn: 07753 771 827.
E-bost: laf@wrexham.gov.uk